



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Croeso.....	3
Cyflwyniad.....	4
Ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru.....	5
Y Cyd-destun Cyfreithiol.....	6
Ein Cyfrifoldebau fel Cyflogwr.....	7
Ein Cyfrifoldebau Fel Darparydd Gwasanaeth Cyhoeddus.....	8
Cysylltu ac Ymgynghori.....	8
Y Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.....	9
Cyflwyniad i Amcanion Cydraddoldeb.....	10
Ein Hamcanion Cydraddoldeb.....	11
Monitro cynnydd.....	12
Asesu effeithiau polisiau ac ymarferion.....	12
Nodi a chyhoeddi gwybodaeth cydraddoldeb perthnasol.....	13
Y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac amcanion penodol.....	13

Croeso

Mae'n bleser gennyn gyflwyno ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd cyntaf, am y cyfnod 2015 tan 2019, sy'n dangos ein hymateb i ofynion Dyletswyddau'r Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio sicrhau fod ein hymwelwyr a'n cwsmeriaid, a phawb sy'n gweithio i ni, yn cael eu trin â pharch a bod eu gwahanol anghenion yn cael eu hystyried. Drwy wneud hyn, byddwn yn datblygu diwylliant cynhwysol a byddwn yn sefydliad sy'n fwy ymatebol i'n cwsmeriaid ac i'n staff. Rydym ni'n anelu, nid yn unig at gydymffurfio, ond at fynd y tu hwnt i ofynion y ddeddfwriaeth o ran ein hymwelwyr a'n cwsmeriaid. Nid yw ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn dibynnu ar yr amgylchiadau economaidd ehangach, rydym ni wedi ymrwymo i hyn fel ffordd o weithio ac mae ein gwerthoedd a'n hymddygiad corfforaethol yn dangos sut yr ydym ni eisiau darparu'r gwaith rydym ni'n ei wneud.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn sail i ddiben Cyfoeth Naturiol Cymru o sicrhau fod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella'n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rydym ni'n deall fod gan bobl wahanol anghenion, diwylliant, profiadau a disgwyliadau a, thrwy ymateb i'r rhain, byddwn oll yn elwa ar brofiad cyfoethocach o fywyd ac o safbwynt ehangach i ddarparu'n ardderchog i bawb o'n cwsmeriaid ac i gyfarfod ein nodau hir dymor.

Ashleigh Dunn

Cyfarwyddwyr Gweithredol

Datblygu Cyfundrefnol a Rheoli Pobl

Cyflwyniad

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 i gyflwyno ei amcanion ar gyfer cydraddoldeb mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd y cynllun yn darparu'n holistig, gan gwmpasu pob agwedd o'r nodweddion gwarchoddedig sy'n cael eu cynnwys yn y Ddeddf. Rydym ni'n cydnabod y bydd ymateb i wahanol anghenion ein staff, ein hymwelwyr a'n rhanddeiliaid yn helpu i ddatblygu gwasanaethau a fydd yn cyfarfod ag anghenion pawb ac y bydd yn denu gweithlu sy'n cynrychioli'r gymuned ehangach.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i alluogi unigolion i elwa o reoli amgylchedd Cymru'n gynaliadwy, waeth beth fo eu nodweddion fel unigolion, yn oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a rhiantu, hil, crefydd neu gred, rhyw (gwryw neu fenyw) neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn denu ac yn cadw'r amrywiaeth ehangaf a mwyaf amrywiol o dalent ymysg ein staff er mwyn datblygu amgylchedd ddeinamig a chreadigol a fydd o fudd i'r cyfan o Cyfoeth Naturiol Cymru ac i'r bobl rydym ni'n eu gwasanaethu.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn fframwaith gyffredinol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru, er budd pob un o'r staff a'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Mae'n cael ei anelu at Gyfarwyddwyr Gweithredol, Aelodau'r Bwrdd a staff, mae'n berthnasol i bob agwedd o waith y sefydliad ac yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n hymddygiad corfforaethol. Gofynnir i bob sefydliad ac unigolyn arall sydd â pherthynas â Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu yn unol ag ysbryd y ddogfen hon. Mae'r cynllun yn cynnwys set o bump Amcan Cydraddoldeb, yn seiliedig ar ein themâu yn ein Cynllun Corfforaethol i'n helpu i sefydlu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth y byddwn yn ei wneud. Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, rydym wedi defnyddio nifer o strategaethau, gweithgareddau a chynlluniau gweithredu sydd eisoes ar gael yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn pwysleisio y dylai cydraddoldeb gael ei sefydlu ledled gwaith y sefydliad ac na ddylai gael ei weld fel elfen ar wahân i brif waith Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd sefydlu cydraddoldeb fel hyn yn gwella ein hagwedd at ofal y cwsmer ac yn sicrhau y bydd ystyried effeithiau ein dulliau gwaith yn dod yn rhan o'n 'gwaith arferol' ac nid yn rhywbeth ychwanegol na fydd yn cael ei ystyried oni bai bod gennym amser ar ei gyfer.

Ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru

Rydym ni'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a ffurfiwyd fis Ebrill 2013, gan, yn bennaf, gymryd drosodd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

Mae gennym ni amrywiaeth eang o swyddogaethau a chyfrifoldebau:

Ymgynghorydd: prif ymgynghorydd i Lywodraeth Cymru, ac ymgynghorydd i ddiwydiant ac i'r cyhoedd a'r sector gwirfoddol yn ehangach, a chyfathrebwr ynghylch materion sy'n berthnasol i'r amgylchedd a'i hadnoddau naturiol.

Rheoleiddiwr: yn amddiffyn pobl a'r amgylchedd, gan gynnwys diwydiannau morol, coed a gwastraff, ac yn erlyn y rhai sy'n torri'r rheoliadau rydyn ni'n gyfrifol amdany'n nhw.

Dynodydd: ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - ardaloedd o werth neilltuol oherwydd eu bywyd gwyllt neu eu daeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yn ogystal â datgan Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

Ymatebydd: i tua 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol sy'n cael eu hadrodd bob blwyddyn, fel ymatebydd argyfwng Categori 1

Ymgynghorydd statudol: i tua 9,000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn

Rheolwr/Gweithredydd: yn rheoli tua saith y cant o arwynebedd tir Cymru, gan gynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd rhag dŵr a llifogydd a rhedeg ein canolfannau ymwelwyr, adnoddau hamdden a labordy.

Partner, Addysgydd a Galluogydd: cydweithiwr allweddol gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, darparu grantiau a helpu amrywiaeth eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu, a gweithredu fel catalydd i waith pobl eraill.

Casglwr tystiolaeth: monitro ein hamgylchedd, comisiynu a chynnal ymchwil, datblygu gwybodaeth a bod yn gorff cofnodion cyhoeddus.

Cyflogwr: i bron 1900 o staff yn ogystal â chefnogi cyflogaeth y tu allan drwy ein gwaith contract.

Y Cyd-destun Cyfreithiol

Daeth y Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n cyfuno'r gyfraith gwrth wahaniaethu bresennol mewn un fframwaith cyfreithiol, i rym fis Hydref 2010. Cafodd cyfanswm o naw darn o ddeddfwriaeth sylfaenol a mwy na 100 darn o is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Perthnasau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, eu hymgorffori yn y ddeddf. Drwy gyfuno'r ddeddfwriaeth a dod â'r tair deddf at ei gilydd yn un darn o ddeddfwriaeth, mae'r gyfraith yn haws ei deall a'i chymhwyso.

Mae'r Ddeddf yn gwarchod pobl â rhai nodweddion penodol, rydym ni hefyd yn cydnabod bod rhai pobl yn rhannu mwy nag un nodwedd, fel a ganlyn:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil (ar gyfer materion cyflogaeth)
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hîl
- Crefydd a Chred
- Rhyw (gwryw neu fenyw)
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus gyfarfod â dyletswyddau **cyffredinol** a **phenodol**:

Dyletswyddau cyffredinol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb cyfreithiol i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddwch ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad anghyfreithlon sy'n cael eu gwahardd o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd rhwng pobl o wahanol grwpiau

- meithrin perthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau – mae hyn yn cynnwys taclo rhagfarnau a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol grwpiau.

Dyletswyddau penodol. Daeth Dyletswyddau'r Sector Cyhoeddus ar gyfer Cymru i rym fis Ebrill 2011. Mae yna 20 o reoliadau, ynghyd â gofynion rhyng-gysylltiol, gan gynnwys:

- Gosod amcanion cydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig
- Monitro ac adrodd ar wybodaeth cyflogaeth yn ôl nodweddion gwarchoddedig:
 - y nifer a gyflogir
 - recriwtio (gan gynnwys ymgeiswyr a'r rhai sy'n newid swyddi)
 - y rhai'n gadael
 - hyfforddiant
 - cwynion, disgyblaeth
 - yn ychwanegol ar gyfer rhyw, yn ôl swyddi, graddfeydd, cyflogau, mathau o gontractau, patrymau gwaith
- Casglu gwybodaeth arall, berthnasol, ynghylch cydraddoldeb
- Asesu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch cyflogau
- Asesu effeithiau polisiau ac ymarferion
- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch cydymffurfio â'r Dyletswyddau Penodol.

Ein Cyfrifoldebau fel Cyflogwr

Rydym ni'n cydnabod na allwn ni lwyddo i wireddu ein gweledigaeth a chyfarfod ein hamcanion strategol oni bai bod gennym ni weithlu amrywiol. Mae gennym ni wahanol bolisiau ac ymarferion sy'n cefnogi cynhwysedd ac amrywiaeth. Rydyn yn anelu at sicrhau y byddwn yn cefnogi ac yn annog ein staff i chwarae eu rhan wrth sicrhau fod ein hamgylchedd waith yn deg ac yn gynhwysol a heb unrhyw fath o wahaniaethu na bwlio. Hysbysir staff am eu cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb wrth eu sefydlu a

thruw gael hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a hefyd drwy ymddwyn yn gyfrifol ac yn broffesiynol fel unigolion. Fel rhan o'u gwerthusiadau, dylai pob aelod o staff gofio am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r mesurau hyn hefyd yn helpu i sicrhau ein bod yn cyfarfod â'n cyfrifoldebau deddfwriaethol

Ein Dyletswyddau fel Darparydd Gwasanaeth Cyhoeddus

Fel corff sector cyhoeddus, rydym ni'n darparu adnoddau a gwasanaethau i gyhoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ein dyletswydd wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn yw sicrhau ein bod yn talu sylw i amrywiaeth ein cwsmeriaid a bod ein prosesau caffael yn gweithredu'n unol â deddfwriaeth ac yn adlewyrchu ein dyletswyddau yn y maes hwn. Mae'n rhaid i ni hefyd ystyried a bod yn rhagweithiol ynghylch y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir a sicrhau eu bod yn sensitif i anghenion y cyhoedd ac yn darparu gwybodaeth yn effeithiol ar y ffurf angenrheidiol.

Cysylltu ac Ymgynghori

Mae deddfwriaeth cydraddoldeb yn cydnabod pwysigrwydd cysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig er mwyn ffurfio ymarferion sy'n sicrhau bod anghenion pawb yn cael eu nodi a'u hystyried.

Mae ymgynghori a chysylltu wedi helpu i ddatblygu sail leol o dystiolaeth ar gyfer ffurfio ein hamcanion. Deallir fod hyn yn rhan hanfodol o'r broses ac y bydd dal i gysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig o gymorth i ddatrys problemau a hefyd yn amlygu lle y mae'r mwyaf o angen newid. Daeth yr Amcanion Cydraddoldeb drafft ar gael, i'n staff ac i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau, ar ein gwefan rhwng 28 Hydref 2014 a 6 Ionawr 2015. Gwahoddwyd pobl i adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb ac i gyflwyno ymatebion yn electronig neu drwy'r post.

Rydym ni hefyd wedi ceisio ymgynghori â grwpiau sy'n cynrychioli'r rhai yn y gymuned ehangach sydd â nodweddion gwarchoddedig. Enghreifftiau o hyn yw'r digwyddiadau cyfranogi, allanol a mewnol, a gynhaliwyd ym Mangor, Llandrindod, Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno a Chaerdydd.

Byddwn yn dal i ofyn am farn staff, ymwelwyr a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r rhai â nodweddion gwarchoddedig wrth ddatblygu ein hamcanion a'r cynllun gweithredu i'w canlyn. Byddwn yn dal i ymgynghori a chysylltu a byddwn hefyd yn ceisio gwella ein

dulliau drwy ymchwilio i ffyrdd eraill o gysylltu, yn ogystal â dal i weithio gyda grwpiau lleol (mewnol ac allanol) a chysylltu ag awdurdodau cyhoeddus eraill gan gynnwys cyrff a noddir gan y llywodraeth. Mae ein Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd wedi cyflwyno sylwadau ac adborth ynghylch yr Amcanion Cydraddoldeb ac ynghylch y Cynllun Gweithredu

Y Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo i gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhrif lif ein gweithgareddau yn ogystal â chyfarfod y dyletswyddau cyffredinol a phenodol sy'n cael eu gosod arnom drwy ddeddfwriaeth. Mae'r cynllun hwn yn adeiladau ar weledigaeth a blaenoriaethau strategol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r cynllun yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau y dylai pawb sy'n ymgeisio am swydd, aelodau o staff, ymwelwyr, rhanddeiliaid neu gontractwyr gael eu trin yn deg a bod yr amddiffyniad hwn y cael ei estyn yn seiliedig ar gysylltiad â, a chanfyddiad, o nodweddion gwarchoddedig. Dymuna Cyfoeth Naturiol Cymru hyrwyddo a chynnal diwylliant drwy ein gwerthoedd a'n hymddygiad a lle mae cydymddiriedaeth yn sail i'n perthynas waith.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ddyletswydd ac yn her i bawb, yn aelodau o staff, aelod o'r Bwrdd neu'n unrhyw berson neu sefydliad sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer, neu mewn partneriaeth â, Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ymarferol, golyga hyn bod yn rhaid i bawb drin pobl eraill yn deg a chydag urddas a pharch. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn talu sylw i unrhyw broblem o wahaniaethu neu ymarfer amhriodol a bydd yn meithrin ymwybyddiaeth staff drwy raglen o hunan ddatblygu. Anogir pawb i herio ac i adrodd ar unrhyw ddigwyddiad o wahaniaethu.

Ymrwymiad cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn

- Coleddu pobl waeth beth yw eu nodweddion gwarchoddedig
- Byw ein gwerthoedd drwy ein hymddygiad a thrwy wireddu ein huchelgeisiau.
- Sicrhau fod ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n strategaethau yn adlewyrchu ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru i gydraddoldeb.
- Disgwyl i bob aelod o staff, ymwelwyr a rhanddeiliaid drin ei gilydd gydag urddas a pharch.

- Disgwyl i bwyllgorau a gweithgorau eraill dalu sylw dyladwy i amrywiaeth eu haelodau ac ystyried effeithiau eu penderfyniadau ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig.
- Disgwyl i bob aelod o staff sicrhau eu bod yn ymwybodol o faterion cydraddoldeb a derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, fel unigolion ac ar y cyd.
- Sicrhau fod ein darpariaeth hyfforddiant yn hygyrch ac yn gynhwysol.
- Peidio â derbyn ymddygiad sy'n arwain at greu amgylchedd frawychus a gelyniaethus.

Cyflwyniad i Amcanion Cydraddoldeb

Mae dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2020 yn datgan fod yn rhaid datblygu amcanion cydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig ac rydyn ni wedi paratoi ein hamcanion yn unol â phum rhaglen 'da' y Cynllun Corfforaethol, pob un, yn unigol, yn gynhwysol o'r holl nodweddion gwarchoddedig. Mae'r amcanion wedi cael eu sefydlu gan ddefnyddio canlyniadau ein digwyddiadau a'n hymgyngoriadau cyfranogi. Rydyn ni'n sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac maen rhaid gallu mesur i ba raddau rydym ni'n llwyddo i gyrraedd ein hamcanion. Pan ganfyddir bylchau yn yr wybodaeth sydd gennym fel sefydliad newydd, byddwn yn ceisio casglu gwybodaeth sylfaenol yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun i feincodi ein hunain yn ei erbyn. Mae mwy o ofynion ynghlwm â rhai nodweddion gwarchoddedig na'r gweddill ac mae rhai wedi bod yn destun deddfwriaeth ers blynnyddoedd, er enghraifft, anabledau. Mae llai o dystiolaeth ar gael i ni weithredu ynghylch y nodweddion sydd wedi'i cynnwys yn ddiweddar yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel rhai sy'n cael eu gwarchod a bydd yn cymryd peth amser i ni gasglu gwybodaeth. Cydnabyddir mai anaml rydym ni, fel unigolion, yn disgyn i un categori yn unig a bod ein nodweddion personol ynghlwm â, ac yn gallu effeithio ar, wahanol agweddau o'n bywyd.

Mae deddfwriaeth hefyd yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus ddangos amcan penodol i dalu sylw yn y bwch cyflogau rhwng dynion a merched yn ogystal ag unrhyw amcanion eraill sy'n cael eu gosod ar gyfer nodwedd warchoddedig rhyw. Mae ein hamcanion ynghylch cyflogau cyfartal yn adeiladu ar y gwaith a nodwyd yn yr Adolygiad Cyflogau Cyfartal diwethaf

Ein hamcanon cydraddoldeb

1. Yn Dda am wybodaeth

Rydym yn casglu ac yn gwerthuso gwybodaeth a thystiolaeth, gan sicrhau ei fod yn ddiuedd, ac yn defnyddio gwybodaeth cydraddoldeb i ganfod gwahanol anghenion a phrofiadau pobl o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Rydym ni'n cymryd penderfyniadau, ar ôl cynnal asesiadau effeithiau cydraddoldeb ar ein cynlluniau, polisïau a'n prosesau sy'n cael eu seilio ar ddata a thystiolaeth.

2. Yn Dda i'r Amgylchedd

Rydym yn helpu pobl Cymru, ac ymwelwyr â Chymru, gan gofio am wahanol anghenion pobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig, i ddeall manteision amgylchedd da ac i hyrwyddo defnyddio adnoddau naturiol Cymru.

3. Yn Dda i bobl:

Rydym ni'n deall sut y mae cymunedau yn gallu cael y gwasanaethu rydym ni'n eu darparu a hefyd unrhyw rwystrau y mae ein cwsmeriaid yn eu hwynebu. Byddwn yn cysylltu ag unigolion ac â grwpiau defnyddwyr i wneud yn siŵr fod ein cynlluniau yn addas, yn ddealladwy ac yn angenrheidiol a byddwn hefyd yn talu sylw i unrhyw rwystrau ac anghyfartaledd a ganfyddir. .

4. Yn Dda i fusnes:

Rydym ni'n gosod safonau a disgwyliadau clir wrth ddarparu ac wrth gaffael ein gwasanaethau sy'n galluogi ac yn gyrru cydraddoldeb o ran cyfleoedd, mynediad a gwasanaeth. Rydym ni'n sicrhau ein bod yn perfformio yn unol â'r safonau hynny ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu sefydlu ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

5. Yn Dda fel Sefydliad

Rydym ni'n gobeithio y bydd ein gweithlu'n fwy cynrychioladol o'r nodweddion gwarchoddedig, a ddatblygu diwylliant o weithio lle bydd pobl yn teimlo y byddan nhw'n gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Monitro cynnydd

Ar hyn o bryd, mae'r Fforwm Cydraddoldeb yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd, pob Cyfarwyddiaeth, rhwydweithiau staff ac Undebau Llafur. Hefyd, mae rhai aelodau o staff yn cael eu penodi'n benodol i ganolbwyntio ar faterion ynghylch cydraddoldeb.

Bydd amcanion y cynllun hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol. Mae'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn ddogfen waith a bydd gweithrediadau newydd yn cael eu hychwanegu'n ôl y gofyn wrth ymateb i dystiolaeth ac ymgynghoriadau nad oedd ar gael ar adeg ei ysgrifennu. Bydd diweddariad blynyddol ar gynnydd ynghylch yr amcanion yn cael ei baratoi i gyd-fynd â chylch adrodd Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli ac i'r Bwrdd. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei adolygu bob pedair blynedd.

Gofynnir i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol gymryd cyfrifoldeb yn uniongyrchol am ddangos sut y bydd yr amcanion a'r gweithredoedd a ddangosir yn y cynllun hwn yn cael eu sefydlu yng Nghynlluniau Darparu eu Cyfarwyddiaethau, i ystyried eu blaenoriaethau ac, ar ôl ymgynghori a chysylltu â'u rhanddeiliaid, ychwanegu'r gweithrediadau y maen nhw o'r farn sy'n berthnasol yn benodol i'w meysydd nhw. Adroddir ar y gweithrediadau yn ystod y flwyddyn ac mewn cyfarfodydd o'r Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Asesu effeithiau polisiau ac ymarferion

Bydd system Asesiadau Effeithiau Cydraddoldeb o help i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb. Bydd cynnal yr asesiad hwn o help i ddwyn materion cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r brif ffrwd ac yn hyrwyddo diwylliant lle mae pawb yn ystyried perthnasedd ac effeithiau eu gweithredoedd a'u penderfyniadau ar gydraddoldeb pobl eraill. Anaml y mae pobl yn gwahaniaethu'n fwriadol ond, drwy ganolbwyntio'n ofalus ar bob nodwedd warchoddedig, gallwn ddangos y gwahanol ffyrdd y gall ein hymarferion effeithio ar grwpiau o bobl a gweithio i gael gwared ar ganlyniadau negyddol; gallwn hefyd amlygu'r effeithiau positif a allai ddeillio o'n polisiau a'n hymarferion. Gan fod Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cymryd rhan mewn datblygu neu adolygu polisiau ac mewn cymryd penderfyniadau, darperir hyfforddiant a gweithdai ar eu cyfer. Mae Asesiadau Effeithiau Cydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gael drwy ein tudalen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Nodi a chyhoeddi gwybodaeth cydraddoldeb perthnasol

Cesglir a didolir gwybodaeth ynghylch nifer y staff sydd â gwahanol nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr wybodaeth yn cael ei gasglu gan staff ar adeg ymgeisio am swydd ac yn cael ei diweddarau gan staff wrth gynnal ymarferion dilysu. Byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth o ganlyniadau prosiectau mewnol, megis yr Adolygiad Cyflogau Cyfartal. Byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol ar yr wybodaeth berthnasol yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr wybodaeth sydd ar gael yn cael ei ystyried gan y Fforwm Cydraddoldeb ac Anabledd wrth baratoi amcanion a gweithrediadau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac wrth baratoi tystiolaeth ar effeithiau amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Tudalen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan fydd y brif ffordd o rannu gwahanol wybodaeth pan fydd ar gael a byd dyn cynnwys:

- Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu i'w ganlyn
- Adroddiad blynyddol ar gynnydd y cynlluniau
- Adroddiad ystadegol blynyddol ar wybodaeth cyflogaeth
- Gwybodaeth arall, berthnasol, ynghylch cydraddoldeb
- Canlyniadau asesiadau effeithiau cydraddoldeb

Bydd yr wybodaeth ar gael ar ffurfiau eraill, ar gais, megis print bras.

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac amcanion penodol

Mae Cynllun Gweithredu wedi'i baratoi i amlinellu'r camau y bydd yn rhaid eu cymryd i gyrraedd yr amcanion. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys manylion yn dangos paham fod gweithrediadau'n cael eu cynnal, gan gysylltu ag adroddiadau mewnol neu genedlaethol, ystadegau, neu gysylltu â rhai â nodweddion gwarchoddedig.

Er mwyn sefydlu'r gweithrediadau yn ein gwaith bob dydd, mae'n rhaid eu cysylltu â swyddogaethau'r Cyfarwyddiaethau ac maen nhw'n cael eu dangos i adlewyrchu hyn. Dyma sut y gellir cynnwys gweithrediadau wrth redeg Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefel strategol a chenedlaethol.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar gael ar ein gwefan a gellir gofyn amdano ar ffurfiau eraill drwy'r manylion cyswllt ar y clawr cefn.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Newport Road
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun - Gwener, 8am - 6pm)
enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru o flaen llaw



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government